# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 4 Rhagfyr 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor
5 Cwestiynau ar Lywodraeth Agored i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Badminton yng Nghymru

**C6 Mick Bates:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i hyrwyddo badminton, ac annog pobl i'w chwarae, yng Nghymru? (OAQ20814)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn gweithio'n agos gydag Undeb Badminton Cymru i hybu a hyrwyddo badminton yng Nghymru. Y llynedd, rhoddwyd £400,000 i'r gamp. Mae swyddogion datblygu rhanbarthol yn y Gogledd a'r De, ac mae 12 canolfan ragoriaeth badminton ledled Cymru.

### Stadiwm y Mileniwm

**C7 Glyn Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ag Undeb Rygbi Cymru ynghylch dyfodol hirdymor Stadiwm y Mileniwm? (OAQ20818)

**Jenny Randerson:** Cyfarfûm â chadeirydd Stadiwm y Mileniwm ccc ac Undeb Rygbi Cymru, Glanmor Griffiths, ym mis Mawrth eleni i drafod sefyllfa ariannol y stadiwm. Esboniais agwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru bryd hynny, fel y gwneuthum eto pan ymddangosodd ef gerbron y Pwyllgor Diwylliant yn gynharach y mis hwn.

Nid yw'n bosibl i Lywodraeth y Cynulliad roi grant i adeilad a godwyd eisoes, ond gallwn ystyried rhinweddau achos busnes a drafodwyd yn llawn ac sy'n darparu manylion ariannol llawn a thryloyw ar gyfer y sefydliad dan sylw.

*Atebwyd Cwestiwn 8 (OAQ20832) yn y Cyfarfod Llawn.*

### Arian y Loteri

**C9 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y gall Llywodraeth y Cynulliad sicrhau y defnyddir arian y loteri i gefnogi blaenoriaethau'r Llywodraeth? (OAQ20846)

**Jenny Randerson:** Gwneuthum ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Tachwedd yn amlinellu fy nod y dylai fod gan holl ffrydiau arian y loteri yng Nghymru nodwedd Gymreig glir. Yr wyf hefyd wedi mynegi barn Llywodraeth Cynulliad Cymru am yr adolygiad ar y cyd o arian y loteri, fel ag y'i cefnogwyd mewn Cyfarfod Llawn, i Weinidogion yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan geisio datganoli mwy o bwerau o ran dosrannu arian y loteri.

### Celfyddyd Gyfoes yng Nghymru

**C10 Phil Williams:** Sut mae'r Gweinidog yn hyrwyddo talent mewn celfyddyd gyfoes yng Nghymru? (OAQ20844)

**Jenny Randerson:** Mae fy strategaeth ddiwylliant, 'Creative Wales: Cymru Greadigol', yn delio'n uniongyrchol â materion yn ymwneud â chelfyddyd gyfoes. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweinyddu nifer o gynlluniau ariannu newydd sy'n mynd i'r afael â hyrwyddo talent mewn celfyddyd gyfoes. Cymru Greadigol yw'r mwyaf perthnasol, sef cynllun datblygu proffesiynol â chyllideb o £250,000, sy'n cynnig grant o hyd at £25,000 i ymarferwyr ym mhob maes celfyddydol er mwyn iddynt dreulio cyfnod dwys yn datblygu eu crefft.

### Annog Chwaraeon Rheolaidd

**C11 Peter Black:** Beth sy'n cael ei wneud i annog mwy o bobl i gymryd rhan yn rheolaidd mewn rhyw fath o chwaraeon? (OAQ20805)

**Jenny Randerson:** Mae camau eisoes wedi eu cymryd. Mae cynllun i gynnig addysg gorfforol fel rhan o chwaraeon yn yr ysgol ar waith, a fydd yn arwain at fuddsoddiad o £5 miliwn mewn chwaraeon yn yr ysgol dros y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn helpu i ysgogi a chydlynu gweithgareddau chwaraeon gwell a mwy niferus mewn ysgolion yng Nghymru. Yn ogystal, paratowyd cynllun gweithredu ar sail argymhellion y tasglu byw'n iach a gweithgar. Ynghyd â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cefnogaf innau'r cynllun yn llawn, sy'n ceisio hyrwyddo bywyd beunyddiol mwy gweithgar ac yn ategu gwaith Cyngor Chwaraeon Cymru.

### Pentref Chwaraeon Arfaethedig Caerdydd

**C12 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiad pentref chwaraeon arfaethedig Caerdydd? (OAQ20835)

**Jenny Randerson:** Mater i Gyngor Sir Caerdydd yn bennaf yw pentref chwaraeon arfaethedig Caerdydd.

### Ehangu'r Farchnad i Artistiaid o Gymru

**C13 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau i ehangu'r farchnad yng Nghymru ar gyfer gwaith artistiaid o Gymru? (OAQ20803)

**Jenny Randerson:** Mae 'Creative Future: Cymru Greadigol' yn cydnabod bod yn rhaid inni barchu ymdrech gelfyddydol yr unigolyn yn yr un modd ag y byddem yn parchu unrhyw gyfraniad proffesiynol arall at ein cymdeithas. Noda hefyd y dylem gynorthwyo artistiaid i ddod o hyd i ofod stiwdio, bwrsarïau a chomisiynau a gwella'r berthynas rhwng artistiaid, dylunwyr a marchnadoedd crefftau. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn defnyddio cymhorthdal Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu'r Cynllun Casglu tra llwyddiannus. Mae hwn yn fenthyciad di-log o £50 hyd at £2,000 i annog mwy o bobl i brynu gweithiau celf a chrefft gwreiddiol o orielau Cymru. Mae bron i £471,00 wedi ei fenthyca eisoes eleni.

### Pobl Ifanc yn y Celfyddydau

**C14 Eleanor Burnham:** Beth sy'n cael ei wneud i annog pobl ifanc i gyfranogi yn y celfyddydau? (OAQ20812)

**Jenny Randerson:** Mae fy strategaeth ddiwylliant, 'Creative Wales: Cymru Greadigol', yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol ysgogi pobl ifanc a rhoi cyfleoedd iddynt gyfranogi yn y celfyddydau. Mae'r cynllun 'Gosod y Sylfeini' yn benodol ar gyfer pobl ifanc. Gofynnais i Gyngor Celfyddydau Cymru sefydlu cronfa celfyddydau i'r ifanc, a chynyddu nifer y strategaethau peilot ar gelfyddydau i'r ifanc ar draws Cymru. Caiff y gronfa ei lansio cyn hir. Yn ogystal, yr wyf yn rhoi bron i £12 miliwn dros dair blynedd i gyngor y celfyddydau er mwyn datblygu theatr i bobl ifanc.

**Ofcom**

**C15 Kirsty Williams:** Pa sylwadau mae’r Gweinidog wedi eu cyflwyno i Lywodraeth y DU ynghylch sicrhau llais dylanwadol a phwerus i Gymru ar Ofcom? (OAQ208338)

**Jenny Randerson:** Ymgynghorodd Llywodraeth y Cynulliad yn eang ar y Mesur Cyfathrebu drafft, a thrafodwyd ein hymateb ffurfiol mewn Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd Pwyllgor. Derbyniwyd penderfyniad y Cyfarfod Llawn gan y pedair plaid.

Yr wyf hefyd wedi cael trafodaethau â Tessa Jowell, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, y Dr Kim Howells, Gweinidog y DU dros Dwristiaeth, Ffilm a Darlledu, a Don Touhig, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru. Defnyddiais bob trafodaeth i amlygu’r materion penodol a godwyd yn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i’r Mesur Cyfathrebu drafft ac i esbonio barn a phryderon Llywodraeth y Cynulliad ar y cynigion ynglŷn ag Ofcom.

## Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

**Allforio Anifeiliaid Byw**

**C8 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar allforio anifeiliaid byw? (OAQ20892)

**Deputy First Minister and Minister for Rural Development and Wales Abroad (Michael German):** Mae allforio anifeiliaid fferm byw yn fasnach gyfreithlon, cyhyd â’i bod yn unol â’r rheolau ar amseroedd teithio ac ardystio iechyd.

**Cig Coch Cymru**

**C9 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar y cynnydd sydd wedi ei wneud ar sefydlu corff newydd ar gyfer hyrwyddo cig coch Cymru? (OAQ20860) [W]

**Michael German:** Mae’r pum darpar bartner wedi gwneud llawer o waith i sefydlu corff cig coch newydd yng Nghymru. Mae pedwar o’r partneriaid hynny eisoes wedi cadarnhau y byddant yn ymuno â’r corff newydd, ac mae’r pumed yn ymgynghori â’i aelodau cyn penderfynu. Mae’r trafodaethau yn mynd rhagddynt ac mae cynrychiolwyr y pum partner yn rhan ohonynt.

**Cysylltiadau â Llywodraethau Gwladol Eraill**

**C10 Brian Gibbons:** Beth mae’r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo a chydlynu cysylltiadau â llywodraethau gwladol eraill? (OAQ20886)

**Michael German:** Mae datblygu cysylltiadau â llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol eraill, yn ddwyochrog ac yn amlochrog, yn gyfraniad allweddol at godi proffil a chynyddu dylanwad Cymru yn rhyngwladol, yn ogystal â bod o fudd i bawb. Yr ydym fwyfwy yn ceisio datblygu’r cysylltiadau hyn fel rhan o fframwaith strategol.

**Cytundebau Tir Gofal**

**C11 Glyn Davies:** Faint o gytundebau Tir Gofal sydd wedi’u llofnodi? (OAQ20872)

**Michael German:** Llofnodwyd cyfanswm o 1,178 o gytundebau Tir Gofal hyd yn hyn.

## Rheol 20 Diwrnod

**C12 Eleanor Burnham:** A yw'r Gweinidog wedi trafod cymariaethau a gwahaniaethau polisi o safbwynt y rheol 20 diwrnod gyda'r gweinyddiaethau datganoledig eraill? (OAQ20878)

**Michael German:** Byddaf yn trafod y materion hyn yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhyngweinidogol o Weinidogion amaeth y DU.

## Parthau Perygl Nitradau

**C13 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ailasesu parthau perygl nitradau? (OAQ20887) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd.***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus eang ar gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru, dynodwyd parthau sy'n wynebu perygl o ran nitradau ym Medi o dan Reoliadau Diogelu Dŵr Rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2002. Mae'r rhain yn cwmpasu llai na 3 y cant o Gymru. Cyflwynodd y rheoliadau broses statudol o alluogi tirfeddianwyr a ffermwyr yr effeithiwyd arnynt i fynnu bod y Cynulliad yn ailasesu pa un a ddylid cynnwys eu tir o fewn y parthau newydd ai peidio. Gosodwyd hysbysiad mewn papurau newydd yn sôn am y system ailasesu a ble y gellir archwilio mapiau manwl o'r parthau newydd. Y dyddiad cau ar gyfer anfon cynigion ailasesu at Lywodraeth Cynulliad Cymru yw 17 Rhagfyr.

## Diogelwch ym mhob Fferm

**C14 Ann Jones:** Pa asesiad a wnaed o'r cynlluniau peilot presennol ar gyfer defnyddio cynrychiolwyr diogelwch crwydrol yng nghefn gwlad i hybu diogelwch ym mhob fferm? (OAQ20898)

**Michael German:** Bydd y cynlluniau peilot sy'n defnyddio cynrychiolwyr diogelwch crwydrol o fewn y sector amaeth yn gwerthuso effeithiolrwydd cynrychiolwyr a benodwyd gan undebau llafur. Caiff cymariaethau eu gwneud gydag effeithiolrwydd ymgynghorwyr diogelwch annibynnol drwy weithio gyda samplau o ffermwyr sy'n cymryd rhan yn wirfoddol, a chaiff y ddau eu cymharu gyda grŵp rheoli lle na wneir unrhyw drefniadau arbennig i ddarparu cyngor iechyd a diogelwch. Amserlennwyd y prosiect i redeg tan ganol 2004 a chaiff adroddiad ei gyflwyno i bwyllgor ymgynghorol y Comisiwn Iechyd a Diogelwch ar y diwydiant amaeth.

## Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin

**C15 Kirsty Williams:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i sicrhau bod Cymru'n elwa i'r eithaf ar ddiwygio'r PAC? (OAQ20879)

**Michael German:** Yr wyf yn cwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol yn rheolaidd i drafod ystod eang o faterion sy'n uniongyrchol berthnasol i ffermio yng Nghymru, gan gynnwys ail-lunio'r polisi amaethyddol cyffredin. Fy mhrif amcan yw sicrhau'r canlyniad gorau posibl i Gymru a ffermwyr Cymru.

Yn fwy penodol, mae fy swyddogion a minnau yn cymryd rhan mewn trafodaethau allweddol yn Llundain sydd â'r bwriad o ddatblygu safle negodi Llywodraeth y DU yn yr adolygiad canol tymor o'r PAC. Yn ogystal, yr ydym yn cymryd rhan uniongyrchol mewn trafodaethau ym Mrwsel i ddylanwadu ar farn ddatblygol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfeiriad y polisi yn y dyfodol. Mynychais gyfarfod cyngor amaeth yr UE ym Mrwsel yr wythnos diwethaf a chyfarfûm â'r Comisiynydd Franz Fischler, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol.

Ni fyddwn yn ymwybodol o fanylion y cynigion i ddiwygio'r polisi tan ddiwedd mis Ionawr, pryd y disgwylir i'r comisiwn gyhoeddi testunau deddfwriaethol drafft.

## Cwestiynau ar Lywodraeth Agored i'r Trefnydd

### Rheolau a Chanllawiau'r Cynulliad ar Gaffael

**C4 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog adolygu rheolau a chanllawiau'r Cynulliad ar gaffael er mwyn gallu bod mor agored â phosibl ynghylch pam mae penderfyniadau yn cael eu gwneud ar ffyrdd o gyllido? (OAQ20771) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Mae cyfarwyddyd yn cwmpasu polisi caffael y Cynulliad ar gael i bawb ar wefan y Cynulliad, lle y caiff ei ddiweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu arferion gorau. Caiff penderfyniadau ynglŷn â'r dull addas o ariannu eu seilio ar astudiaethau o werth am arian.

*Atebwyd Cwestiwn 5 (OAQ20796) yn y Cyfarfod Llawn.*

### Materion Hawliau Dynol

**C6 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau a gymerodd i hybu ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol yng Nghymru? (OAQ20799)

**Y Trefnydd (Carwyn Jones):** Bu inni gynnal dwy sioe deithiol lwyddiannus ar hawliau dynol, gydag Adran yr Arglwydd Ganghellor, yng Nghaerdydd yn Ebrill, ac yn Llandudno yn Nhachwedd. Yr oedd y rhai a gymerodd ran yn cynnwys cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill, gan gynnwys canolfannau cyngor ar bopeth a grwpiau gwirfoddol. Mae gennym ymrwymiad parhaus i godi ymwybyddiaeth o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, a bydd y sioeau teithiol hyn yn hybu mwy o rhyngweithio a rhannu arferion da ymysg cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

*Tynnwyd cwestiynau 7 (OAQ208000), 8 (OAQ20783) a 9 (OAQ20794) yn ôl.*

### Gwaith a Thrafodion y Cynulliad

**C10 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnwys pobl o bob rhan o Gymru yng ngwaith a thrafodion y Cynulliad? (OAQ20774)

**Carwyn Jones:** Bydd Gweinidogion yn ymweld â phob rhan o Gymru yn rheolaidd i drafod eu gwaith ac i wrando ar bryderon pobl. Cynhaliodd y Cabinet ei sesiwn hawl i holi gyntaf yn Llandudno yng Ngorffennaf, ac yr oedd gan Lywodraeth y Cynulliad bresenoldeb yn mhrif sioeau a gwyliau Cymru yn ystod yr haf. Bwriadwn gynnal sesiynau hawl i holi eraill yn y Gorllewin ac yn y Cymoedd.

### Gwefannau Mewnrwyd a Rhyngrwyd y Cynulliad

**C11 David Ian Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba mor hawdd i'w defnyddio y mae gwefannau mewnrwyd a rhyngrwyd y Cynulliad? (OAQ20792)

**Carwyn Jones:** O ran safle rhyngrwyd y Cynulliad, cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn 3 (OAQ20788) Brian Gibbons yn gynharach heddiw. O ran mewnrwyd y Cynulliad, mae swyddogion yn ymwybodol bod angen gwella mynediad ati. Mae'r ateb yn ymwneud ag ychwanegu meddalwedd, er mwyn sicrhau y caiff y cynnwys ei reoli. Mae cael gafael ar raglen o'r fath yn cael ei ystyried fel rhan o brosiect Merlin, a fydd yn cymryd lle OSIRIS.

### Cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth

**C12 Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffordd y gellir defnyddio cyfleusterau TG yn y Cynulliad Cenedlaethol i hyrwyddo llywodraethu agored? (OAQ20769)

**Carwyn Jones:** Gellir cysylltu â holl Aelodau a swyddogion y Cynulliad drwy e-bost. Mae gennym bolisi cyhoeddi agored i osod pob dogfen cyhoeddus ar ein gwefan. Mae cynnal ymgynghoriadau a fforymau trafod electronig yn arfer cyffredin. Y Cynulliad oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y DU i gyhoeddi cofnodion y Cabinet ar-lein, a chaiff Cofnod y Cynulliad ei gyhoeddi'n electronig yn unig.

## Y Gymuned Foslemaidd

**C13 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffyrdd y mae Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn ymgynghori â'r gymuned Foslemaidd? (OAQ20785)

**Carwyn Jones:** Sefydlwyd cyngor rhyng-grefyddol er mwyn hybu trafodaethau rhwng gwleidyddion a phob prif grefydd yng Nghymru. Bu imi gyfarfod yn ddiweddar â'r sefydliad ar gyfer merched Mwslemaidd, yr All Wales Saheli Association, ac ymwelais â'i swyddfeydd.

Hoffwn ddefnyddio'r cyfle hwn i gondemnio'r trais a'r ymosodiadau diweddar ar Fwslemiaid yn Abertawe yn ystod Ramadan. Ni ellir dioddef ymddygiad o'r fath, sydd yn groes i'n nod o greu Cymru gynhwysol ac amrywiol.

## Llywodraeth Agored

**C14 Jonathan Morgan:** Pa dargedau a bennwyd i fesur perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran llywodraeth agored? (OAQ20772)

**Carwyn Jones:** Mae ein Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn nodi'r egwyddorion a ddilynwn wrth weithio. Ein targed yw annog pobl Cymru i gymryd mwy o ddiddordeb mewn llywodraeth ac i'w deall yn well.

## Gwybodaeth sy'n Fasnachol Gyfrinachol

**C15 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog brofi ei fod wedi ymrwymo i lywodraeth agored drwy ddatgelu gwybodaeth a elwir yn 'fasnachol gyfrinachol' i Aelodau'r Cynulliad, naill ai drwy friffio cyfrinachol i bwyllgorau Pwncneu Sefydlog neu ar delerau 'cyfrin gyngor', yn ôl y galw? (OAQ20798)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n llawn i lywodraeth agored. Rhannaf y safbwynt, fodd bynnag, fod amgylchiadau lle y gallai datgelu rhai categorïau o wybodaeth arwain at niwed. Mae'r Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn rhestru, yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y categorïau o wybodaeth na chaiff eu datgelu. Un categori o'r fath yw gwybodaeth yn ymwneud â buddiannau masnachol lle y byddai, neu y mae'n debygol y byddai, ei datgelu yn niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys y person sydd â'r wybodaeth). Gall datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â buddiannau masnachol hefyd olygu torri cyfrinachedd. Mae'r Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad yn nodi na all Aelodau fel rheol gael gafael ar wybodaeth sy'n fasnachol gyfrinachol.

Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol am sicrhau gwerth gorau drwy gystadleuaeth agored am y nwyddau a gwasanaethau y mae'n eu caffael, credaf ei bod yn bwysig cadw'r egwyddor o gynnal cyfrinachedd masnachol, ac nid wyf yn bwriadu newid y rheolau presennol. Rhaid ystyried y cwestiwn ynglŷn ag i ba raddau y dylid trin gwybodaeth masnachol fel gwybodaeth gyfrinachol yng ngoleuni amgylchiadau unigol.